**EPT-09-02 (min)**

# PWYLLGOR YR AMGYLCHEDD, CYNLLUNIO A THRAFNIDIAETH

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | Dydd Mercher 15 Mai 2002 |
| Amser: | 2:00 pm hyd 4:45 pm |
| Lleoliad: | Neuadd y Gweithwyr, Blaenafon |

**Yn bresennol:**

***Aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth***

| | |
|---|---|
| Tom Middlehurst, Cadeirydd | Alun a Glannau Dyfrdwy |
| Lorraine Barrett | De Caerdydd a Phenarth |
| (yn dirprwyo dros Richard Edwards) | |
| Eleanor Burnham | Gogledd Cymru |
| David Davies | Mynwy |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru |
| Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd | Gogledd Caerdydd |
| Brian Hancock | Islwyn |
| Ann Jones | Dyffryn Clwyd |
| (yn dirprwyo dros Karen Sinclair) | |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe |
| Phil Williams | Dwyrain De Cymru |

***Swyddogion:***

| | |
|---|---|
| Keith Bush | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |
| Denzil Jones (eitemau 2 a 3) | Pennaeth yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Andrew Hemmings (eitem 3) | Yr Is-adran Polisi Trafnidiaeth |
| Gerry Quarrell (eitem 4) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Angharad Huws (eitem 4) | Yr Is-adran Cefn Gwlad |
| Martin Rolph (eitem 5) | Yr Is-adran Gyllid |
| Tom Cassidy (eitem 5) | Prif Weithredwr, Cadw: Henebion Cymru |
| ***Ysgrifenyddiaeth:*** | |
| Siwan Davies | Clerc y Pwyllgor |
| Vaughan Watkin | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Sylwadau Agoriadol**

0. 1 Estynnodd y Cadeirydd groeso i Aelodau, swyddogion a'r cyhoedd i gyfarfod cyntaf y Pwyllgor i'w gynnal ym Mlaenafon. Diolchodd i Tom Cassidy a Peter Wakelin o Cadw am drefnu ymweliad y Pwyllgor â'r Gwaith Haearn a rhannau cyfagos y safle treftadaeth byd yn y bore.

**Eitem 1: Ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau**

1.1 Roedd ymddiheuriadau wedi dod i law oddi wrth Richard Edwards, yr oedd Lorraine Barrett yn dirprwyo drosto, a Karen Sinclair, yr oedd Ann Jones yn dirprwyo drosti.

2. Datganwyd diddordeb gan Val Lloyd fel Aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Datganodd Brian Hancock ei fod wedi gweithio fel ymgynghorydd Amgylcheddol ac Iechyd a Diogelwch cyn cael ei ethol i'r Cynulliad Cenedlaethol.

**Eitem 2: Adran y Gweinidog dros yr Amgylchedd** - EPT-09-02 (p 1)

1. Yn ychwanegol at yr eitemau yn ei hadroddiad ysgrifenedig, rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor am y materion canlynol:

- Cynhadledd Cymru a'r Byd – byddai adroddiad am y gynhadledd ar gael cyn bo hir ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol;

- Comisiwn Dylunio i Gymru – câi'r Comisiwn ei lansio ar 16 Mai, a'i gylch gorchwyl fyddai codi ansawdd dylunio ar draws Cymru. **Byddai'r Gweinidog yn darparu copïau o gylch gorchwyl y Comisiwn Dylunio i'r Aelodau**;

- Rownd Derfynol Cwpan yr FA – roedd y drafnidiaeth wedi'i chyd-drefnu'n dda a bu'r atborth oddi wrth ymwelwyr yn gadarnhaol.

1. Codwyd y pwyntiau canlynol yn ystod y drafodaeth:

*Diogelu'r Amgylchedd*

- Gwastraff – câi'r Strategaeth Gwastraff ei lansio ar 14 Mehefin. Lleihau swmp y gwastraff a gynhyrchir yw'r opsiwn sy'n cael ei ffafrio, yna ailgylchu a gwneud compost, ond mae'n bosibl y byddai yna rôl i losgi er mwyn delio'r â'r gwastraff sylweddol a fyddai ar ôl na ellir ei drin drwy ddulliau mwy gwyrdd. Pwysleisiodd yr Aelodau yr angen i ddatblygu marchnadoedd newydd ar gyfer deunyddiau wedi'u hailgylchu;

- Llifogydd – roedd yr Aelodau'n awyddus i wybod pa gynnydd a wnaed gan yr awdurdodau lleol i ddod â manylion gerbron am astudiaethau dichonoldeb diweddar i brosiectau atal llifogydd lleol.

*Cynllunio*

- Y Papur Gwyrdd Cynllunio – yn ei thystiolaeth i is-bwyllgor Materion Trefol Pwyllgor Trafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau Ty'r Cyffredin, roedd y Gweinidog wedi tynnu sylw at y ffordd unigryw yr aed ati i adolygu'r broses gynllunio yng Nghymru;

- Iechyd a chynllunio – yn y cyfarfod nesaf ar 29 Mai byddai'r Pwyllgor yn derbyn adroddiad oddi wrth y Gweinidog ar y gwaith oedd ar y gweill i sicrhau bod goblygiadau iechyd cyhoeddus datblygiadau arfaethedig yn cael sylw yn ystod y broses gynllunio. Roedd aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cael gwahoddiad i'r cyfarfod.

*Trafnidiaeth*

- Meini prawf y Grant Trafnidiaeth – cefnogai'r Aelodau y cynigion i wahodd ceisiadau

newydd ar y llinellau a nodwyd yn yr atodiad at Adroddiad y Gweinidog. Cyfeiriodd yr Aelodau'n arbennig at werth contractau bws a llwybrau diogel i'r ysgol. Roedd angen ystyried ysgolion a gyrhaeddir ar hyd ffyrdd sydd heb eu mabwysiadu, er mai mater i'r awdurdodau lleol yw hwnnw. **Gofynnodd y Pwyllgor am wybodaeth fanwl am y cyllid sydd ar gael, yn enwedig costau llawn y cynlluniau a gwerth prosiectau PFI, a'r modd y rheolir y gyllideb.**

**Eitem 3: Strategaeth Cerdded a Beicio** - EPT-09-02 (p 2)

1. Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor am y Strategaeth Cerdded a Beisio ddrafft. Yr her fwyaf fyddai'r gystadleuaeth am ddefnydd tir ymysg gwahanol ddefnyddwyr trafnidiaeth.

3.2 Awgrymwyd y dylai'r Gweinidog adlewyrchu profiad gwledydd Ewropeaidd eraill yn y strategaeth ddrafft, a chynigiodd y Pwyllgor y sylwadau canlynol:

- Pa mor hygyrch yw'r llwybrau – roedd yn bwysig fod yna lwybrau di-dor, sy'n cael eu cynnal yn dda, heb fod yn rhan o ffyrdd prysur a'u bod yn ddiogel i gerddwyr a beicwyr. Awgrymodd yr Aelodau y dylid ystyried gwahanu'r llwybrau, neu y dylid ystyried cod ymddygiad i gerddwyr a beicwyr ar ddefnyddio llwybrau a rennir;

- Teithio i'r gwaith – roedd yr Aelodau'n awyddus i weithwyr gael eu hannog i gerdded neu feicio i'r gwaith. Awgrymwyd y dylai caniatâd cynllunio i eiddo masnachol newydd ei gwneud yn ofynnol darparu lle storio beics a chawodydd a chyfleusterau newid i weithwyr sy'n cerdded neu'n beicio i'r gwaith. Gallai awdurdodau lleol ystyried cau rhai ffyrdd hefyd ar 'ddiwrnodau di-geir' er mwyn annog cerdded a beicio;

- Cyllid – roedd angen cynyddu'r cyllid sydd ar gael i gynnal a chadw llwybrau beicio a cherdded a hefyd i hyrwyddo manteision cerdded a beicio o ran iechyd.

3.3 Câi'r strategaeth ddrafft ei chyhoeddi er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd ym Mehefin, a'r disgwyl oedd y câi'r strategaeth derfynol ei chyhoeddi yn yr hydref.

**Eitem 4: Deddf CROW: Canllawiau Drafft ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy** - EPT-09-02 (p 3)

1. Ceisiodd y Gweinidog farn y Pwyllgor ar y canllawiau drafft i awdurdodau priffyrdd lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:

- Hawliau tramwy sy'n bodoli'n barod – roedd yna bryder nad oes yr un awdurdod lleol yng Nghymru wedi cyflawni'r targed y dylai hawliau tramwy lleol fod wedi'u cynnal a'u cadw yn dda, fod wedi'u diffinio'n gyfreithiol a bod cyhoeddusrwydd da wedi'i roi iddynt erbyn 2000. Roedd cyllid ychwanegol wedi'i ddarparu i awdurdodau lleol er mwyn iddynt weithredu darpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy, ac roedd cyllid ar gael hefyd o Gronfeydd Strwythurol Ewrop;

- Diffinio hawliau tramwy – mae awdurdodau lleol yn gyfrifol am lunio mapiau diffiniol o hawliau tramwy cyhoeddus. Roedd darparu arwyddion yn bwysig er mwyn cael cyn lleied o ddryswch a gwrthdaro â phosibl ynglyn ag union leoliad hawliau tramwy;

- Gwyriadau – roedd y broses o geisio gwyriadau i hawliau tramwy yn sefyll ar wahân i'r broses caniatâd cynllunio, ac roedd angen gweithredu mewn ffordd fwy di-fwlch.

4.2 Câi'r canllawiau drafft eu cyhoeddi at ddibenion ymgynghori yn ddiweddarach yn y mis, a châi'r canlyniadau eu hadrodd i'r Pwyllgor.

**Eitem 5: Adolygiad pum-mlynedd Cadw: adroddiad interim drafft** - EPT-09-02 (p 4)

5.1 Ceisiodd Martin Rolph farn y Pwyllgor am yr adroddiad interim drafft, a fyddai'n cyfrannu at yr adroddiad interim terfynol i'r Gweinidogion yn ogystal ag ail gam yr adolygiad pum-mlynedd, a nododd yr opsiynau ar gyfer newid. Gwahoddwyd yr Aelodau i gyflwyno'u sylwadau un ai yn ystod y drafodaeth neu yn ysgrifenedig i Martin.

5.2 Canolbwyntiodd y drafodaeth ar y meysydd canlynol:

- Opsiynau ar gyfer newid – Cytunai'r Aelodau y dylid ystyried dichonoldeb uno Cadw gyda Chyngor Cefn Gwlad Cymru fel rhan o adolygiad ehangach yn y dyfodol o'r strwythurau presennol sy'n gyfrifol am swyddogaethau defnydd tir a dr yng Nghymru gyfan, ac y dylid cyfeirio unrhyw fanteision neu anfanteision o uno gyda'r Comisiwn Brenhinol dros Henebion i'w hystyried gan yr adolygiad pum-mlynedd o'r corff hwnnw yr oedd Martin hefyd yn ei gynnal ar y pryd. Dylid cadw brand llwyddiannus ‘Cadw’;

- Cenhadaeth – cytunai'r Aelodau fod angen cenhadaeth ehangach ar Cadw yn canolbwyntio ar ganlyniadau i'r amgylchedd hanesyddol, ac y dylai gyfeirio at weithio mewn partneriaeth â chyrff eraill. Dylai fod gan Cadw amcan hefyd i godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r amgylchedd hanesyddol yn gyffredinol, ac o'r eiddo o dan ei ofal yn arbennig;

- Staffio – roedd angen gwobrwyo a chadw staff medrus os yw'r amgylchedd hanesyddol i gael ei gadw a'i hyrwyddo. Fel un o Asiantaethau Gweithredol y Cynulliad Cenedlaethol, mae staff Cadw ar yr un cyflogau ac amodau ag aelodau staff eraill y Cynulliad. Fodd

bynnag, roedd gan Cadw rywfaint o hyblygrwydd o ran personél ac roedd wedi cysylltu cyflogau crefftwyr â graddfeydd cyflog gweithwyr cyffelyb yn y Weinyddiaeth Amddiffyn.

5.3 Gan fod materion sy'n ymwneud â'r amgylchedd hanesyddol yn torri ar draws portffolio'r Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a'r portffolio Diwylliant, roedd Sue Essex a Jenny Randerson wedi comisiynu Martin i gynhyrchu papur ar gyfer Pwyllgor yr Amgylchedd a'r Pwyllgor Diwylliant ar faterion cydgysylltiedig sy'n deillio o adolygiadau Cadw a'r Comisiwn Brenhinol. Byddai'r Pwyllgor yn ystyried y materion hyn cyn llunio barn derfynol am strwythur sefydliadol Cadw.

**Eitem 6: Cofnodion cyfarfod 1 Mai 2002** - EPT-08-02 (min)

6.1 Mabwysiadodd y Pwyllgor gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Mai.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf**

7.1 Byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor am 2.00 pm ddydd Mercher 29ain Mai 2002 yn Adeilad Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002**